BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

IONAWR 2025

## BLWYDDYN NEWYDD DDA!

## Dathliad Nadoligaidd i wirfoddolwyr

Diwedd mis Rhagfyr fe gynhaliwyd te parti i wirfoddolwyr sydd wedi derbyn cefnogaeth trwy brosiect Help Llaw i Wirfoddoli ers Ionawr 2024.
Daeth dros 50 o unigolion i swyddfa Mantell Gwynedd i ddathlu blwyddyn ers cychwyn y cynllun sydd wedi cefnogi bron i 70 o unigolion.

Rhoddodd Jordan Thomas, swyddog y prosiect, gyflwyniad ar gerrig milltir allweddol a’r llwyddiannau dros y deuddeg mis diwethaf, a chyflwynwyd tystysgrifau i wirfoddolwyr sydd wedi derbyn cefnogaeth trwy’r prosiect. Mynychodd rhieni a gofalwyr yr unigolion ac roedd yr achlysur yn gyfle gwych i ddod a phawb ynghyd i ddathlu gwaith caled ac ymdrechion y gwirfoddolwyr












01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com

# PROSIECT 'GAFAEL LLAW I WIRFODDOLI'

Prif nod y prosiect, sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) Llywodraeth y DU hyd fis Mawrth 2025, yw darparu cymorth un-i-un i unigolion sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn cychwyn gwirfoddoli.

Dyma beth oedd gan rhai o rieni y bobl ifanc sydd wedi derbyn cefnogaeth trwy'r cynllun i'w ddweud:

"Rwyf wedi gweld gwahaniaeth mawr yn fy mab Harri, sy'n gwirfoddoli'n wythnosol yn Freshfields drwy gefnogaeth y prosiect. Mae ei hyder wedi gwella a dwi wedi synnu ar sut mae'n siarad â phobl. 'Roedd yn swil iawn cyn y prosiect ond bellach mae'n siarad â phobl sy'n wych i'w weld." (Rachel Turner , rhiant Harri)

Dywedodd Eira, mam Evan - "Ni fyddai Evan wedi gallu gwirfoddoli heb gefnogaeth y prosiect . Mae wedi bod yn achubiaeth iddo. Mae wedi gwneud iddo deimlo'n llai unig ac mae wedi gwneud ffrindiau newydd."

Hoffai Mantell Gwynedd ddiolch i'r gwirfoddolwyr gwych am eu holl ymdrechion.

**Da iawn chi gyd!**














Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government



## Ysgol Goedwig, Meithrinfa Oasis, Y Bermo

Derbyniodd Meithrinfa Oasis yn y Bermo Grant Sector Wirfoddol gan Mantell Gwynedd o £2,460 ar gyfer datblygu ysgol goedwig gyda'r plant mewn gardd gymunedol. Ariannwyd y gwaith o Gronfa Ffyniant Gyffredin #UKSPF.



Roedd y prosiect yn ceisio ennyn diddordeb y dysgwyr ifanc gyda'u hamgylchedd naturiol, gan gefnogi chwarae, chwilfrydedd, ymchwilio a chymryd risgiau, byddai'n datblygu hyder a hunan-barch trwy brofiadau ymarferol mewn lleoliad naturiol.

Datblygwyd yr Ysgol Goedwig yn Wern Mynach, sef ardal o fewn y Bermo sydd wedi'i hadennill gan grŵp cymunedol i ddarparu ardal naturiol, diogel a chroesawgar y gall pawb ei mwynhau.



Meddai Faye Bentham ar ran Meithrinfa Oasis, Y Bermo:

"O'r cychwyn cyntaf, ein nod oedd ennyn diddordeb y plant ym myd natur a thanio chwilfrydedd, ymwybyddiaeth a chariad at natur ac mae'r sesiynau hyn wedi caniatáu hyn ddigwydd i'r amgylchedd hwn.

Mae'r plant wedi wir fwynhau cymryd rhan yn y sesiynau ysgol goedwig ac mae llawer o rieni wedi bod yn gofyn mwy o gwestiynau am y sesiynau a'r ardal a ddefnyddir. Mae llawer o rieni wedi rhoi cefnogaeth ysgrifenedig i'r sesiynau ac wedi nodi pa mor dda y mae eu plant wedi tyfu mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hamgylchedd a natur ac yn dymuno bod allan yn ei ymchwilio."



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## CYFLE NEWYDD

### AELODAU BWRDD RHEOLI- TIM ACHUB MYNYDD DYFFRYN OGWEN

**Ydych chi'n angerddol am ddiogelwch mynydd a chefnogi gwasanaeth cymunedol hanfodol?**

**Mae Tim Achub Mynydd Dyffryn Ogwen yn wasanaeth hanfodol sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr ymroddedig i achub bywydau ym mynyddoedd Eryri. Ar hyn o bryd maent yn chwilio am 3 ymddiriedolwr newydd i gefnogi'r mudiad.**

**Mae rhain yn rolau hyblyg gyda disgwyliad i fynychu cyfarfodydd bwrdd (chwarterol), y Cyfarfod Blynyddol a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen**



**Mwy o wybodaeth:**
01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

## CYFLE NEWYDD

### GWIRFODDOLWYR PROFEDIGAETH

**Mae Cruse Bereavement yn darparu cymorth i bobl drwy un o adegau mwyaf poenus eu bywydau. Helpwch i gefnogi pobl mewn profedigaeth yn eich ardal leol ac ar-lein.**

**Fel Gwirfoddolwr Profedigaeth, byddwch yn ymuno â chymuned wirfoddoli lleol i ddarparu cymorth emosiynol i bobl mewn profedigaeth.**

Cruse Cymorth Galar Bereavement Support

**Mwy o wybodaeth:**
01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

## Interested in volunteering?
## Diddordeb mewn gwirfoddoli?

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU WALES Air Ambulance Charity

**Tywyn**

Find out how you can join our excellent team of **Volunteers** at Wales Air Ambulance's store in Tywyn.

We have a variety of roles available so why not join us on our open day to find out more:

**February 05, 1:00 PM - 4:00 PM.**
**February 06, 10:00 AM - 1:00 PM.**

Tywyn Baptist Church, High St, Tywyn LL36 9AF

Darganfyddwch sut gallwch chi ymuno â'n tîm gwych o **Wirfoddolwyr** yn siop Ambiwlans Awyr Cymru yn Nhywyn.

Mae amrywiaeth o rolau ar gael gennym, felly beth am ymuno â ni ar ein diwrnod agored i ddarganfod mwy:

**Chwefror 05, 1:00 yp – 4:00 yp.**
**Chwefror 06, 10:00 yb - 1:00 yp.**

Eglwys y Bedyddwyr Tywyn, Stryd Fawr, Tywyn LL36 9AF

Tempo

## CREDYDAU AMSER TEMPO YN SIR GWYNEDD

**Rydym yn estyn gwahoddiad I chi ddod I'r diswyddiad hwn I ddargafod mwy am Gredydau Amser ac I helpu I ddatblygu syniadau Newydd ar gyfer defnyddio Credudau Answer yng Ngwynedd.**

Gall sefydliadau ar hyn o bryd ymuno â'r rhwydwaith a defnyddio Credydau Amser AM DDIM fel rhan o roglen Tempo a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rydy wedi ein hymrwymo i sicrhau y bydd mwy o wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a busnesau lleol yng Ngwynedd yn gallu elwa.

Elusen genedlaethol yw Tempo sy'n ceisio gwobrwyo gwirfoddolwyr am eu holl ymdrechion gwerthfawr trwy roi Credydau Amser am eu hamser. Mae hyn yn caniatáu iddyn nhw gael mynediad i ystod o weithgareddau gwych mewn lleoliadau sy'n derbyn Credydau Amser yn lle taliad ariannol. O theatrau i sesiynau campfa, safleoedd treftadaeth, canolfannau chwarae a chyfleoedd ar-lein, mae rhywbeth at ddant pawb gyda Chredydau Amser.

Ymunwch â ni i ddarganfod pam mae Credydau Amser yn fuddiol i unigolion a sefydliadau cymunedol a helpwch i nodi cyfleoedd newydd ar gyfer defnyddio Credydau Amser yn eich sefydliad neu gymuned.

**Natalie Parry Programme & Partnership Manager**
**Email:** natalieparry@wearetempo.org

**DEWCH I DDARGANFOD MWY AM GREDYDAU AMSER TEMPO!**

**PRYD**
**Dydd Iau 20 Chwefror**
**2pm – 3.30pm**

**BLE**
**Microsoft Teams**

**CLICK TO BOOK**

Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd Volunteer Scheme

Yn y ystod y flwyddyn mae myfyrwyr Ysgol Brynrefail wedi bod yn brysur yn gwirfoddoli gydag amryw o brosiectau gweithgareddau cymunedol.

Dyma Elliw gyda'i thystysgrifau 50 a 100 awr Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd.

Llongyfarchiadau mawr i bawb!

Diddordeb cael cydnabyddiaeth am eich oriau gwirfoddoli?
Cysylltwch gyda ni am becyn gwybodaeth Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd!



# IECHYD A LLESIANT

HYFFORDDIANT LLES CYMRU
WELFARE TRAINING WALES

## Arweiniad Ariannol i Weithwyr Cymunedol

Cwrs rhagarweiniol ar gyfer pobl sy'n gweithio i sefydliadau cymunedol, i helpu pobl sy'n wynebu tlodi. Ar diwedd y sesiwn tair awr, bydd cyfranogwyr yn:

- Gallu cynnal gwiriad budd-daliadau i weld a yw pobl yn colli allan
- Gallu helpu pobl i gael mynediad at dariffs gyfer dŵr, tanwydd a chyfathrebu gwell
- Gallu helpu pobl sy'n wynebu argyfyngau ariannol: e.e. taliadau brys a help efo bwyd, tanwydd ac arian parod

DYDD SADWRN 18fed IONAWR 10am - 1pm

Caffi Deiniol, Bangor

Cyswllt: 07808472204 cynghorydd.elinwjones@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU — Funded by UK Government

---

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

WEMINDTHE GAP.



## Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 16 i 25 mlwydd oed ar draws Gogledd Cymru nawr.

WeMindTheGap yn cyflwyno

WEDISCOVER

Gogledd Cymru



**Rhaglen rithwir tri mis** sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddarganfod mwy amdanyn nhw eu hunain a'r byd y tu hwnt i'w drws ffrynt.

Yn cynnig strwythur, ysbrydoliaeth a chyfeillgarwch trwy weithdai ar-lein hwyliog.

### Sut fydd cyfranogwyr yn elwa?

- Sesiynau grŵp rhyngweithiol, yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Iau.
- Cefnogaeth fentora un-i-un ymroddedig.
- Mynediad i'n platfform ar-lein Pentref Darganfod, pryd bynnag, ble bynnag.
- Cwrdd â modelau rôl ysbrydoledig fel Paralympwyr, ceidwaid sŵ ac arbenigwyr technoleg ddigidol.
- Mynediad gydol oes i gymorth ac arweiniad drwy WeBelong.

### I ddysgu mwy neu i drafod cofrestru cysylltwch â:

WeDiscover Gogledd Cymru
Kim Harasym-Moss
kim@wemindthegap.org.uk
07732 690705

### Neu ewch i'n gwefan:

WeMindTheGap.org.uk/we-discover

**Ymunwch unrhyw amser nawr!**

**Gwobrau wythnosol a benthyciadau gliniadur ar gael.**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND — wrexham wrecsam — Sir y Fflint Flintshire — WINNER WREXHAM 2024 AWARDS — AG

---

Ardal Penrhyn 07769 343572 — Bro Ffestiniog 07386 660385

## Ionawr : January

hwb@drefwerdd.cymru

| Dyddiad / Date | Amser / Time | Be' sydd 'mlaen? / What's on? | Lleoliad / Where |
|---|---|---|---|
| Mawrth / Tuesday 14.1.25 | 13:30-15:30 | Grwp 60+ Group | Y Ganolfan |
| Mawrth / Tuesday 14.1.25 | 10:00-12:00 | Cerfio Coed Wood Carving (Lle i 6/6 Spaces) | Gerddi Maes y Plas |
| Mawrth / Tuesday 21.1.25 | 11:00 - 13:00 | Creu Gordd Bren Wooden Mallet Making (Lle i 6/ 6 Spaces) | Gerddi Maes y Plas |
| Iau / Tuesday 23.1.25 | 10:00 - 13:00 | Gwehyddu gyda Peg Gwŷdd Peg Loom Weaving (Lle i 4 / 4 Spaces) | Blaenau |
| Iau / Thursday 30.1.25 | 11:00 - 13:00 | Taith Gerdded Guided Walk (Lle i 12 / 12 Spaces) | Penrhyn |

# Anghenion Hyfforddiant Trydydd Sector Gwynedd



**Rydym eisiau clywed gennych chi!**

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi'r trydydd sector yng Ngwynedd, mae Mantell Gwynedd yn gweithio ar hyn o bryd ar adnabod anghenion hyfforddiant a datblygu ar gyfer mudiadau, staff a gwirfoddolwyr.

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion penodol y sector, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr eich mewnbwn yn y Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi.

Mae eich adborth yn bwysig i ni allu llunio ein rhaglen hyfforddiant. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen anghenion hyfforddi isod fel y gallwn ddechrau cynllunio a threfnu'r camau nesaf.

Dyma'r cyswllt, a'r cod QR, ar gyfer cwblhau'r ffurflen:

https://forms.office.com/e/WFQ3tGg0uL





# Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

**Taith Gwerth Cymdeithasol**
Thomas Montgomery
*Rheolwr Datblygu a Chydlynydd Marchnata*
**Crest Co-operative, Conwy**

**Cyfarfod ar Zoom**
**Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2025**
**10.30 -12.30 o'r gloch.**
I LOGI EICH LLE AM DDIM ANFONWCH EBOST AT
svc@mantellgwynedd.com

**Datblygiad Gwerth Cymdeithasol**
Daniel Lewis
*Swyddog Effaith a Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol*
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# GRANTIAU










**£60,000 mewn cyllid cymunedol nawr ar gael ar draws Gogledd Cymru!**

Mae ceisiadau nawr ar agor ar gyfer menter Eich Cymuned, Eich Dewis 2025.
Gallwch wneud cais am hyd at £2,500, neu hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau sy'n gweithio mewn siroedd lluosog ar draws ein rhanbarth.

**Beth sydd angen i chi ei wybod:**

Gwnewch gais erbyn Chwefror 7fed gyda'n ffurflen gais ar-lein hawdd ei defnyddio.

Bydd pleidlais gyhoeddus yn penderfynu ar yr enillwyr ddiwedd mis Chwefror ar gyfer y 21 prosiect i'w hariannu.

Roedd enillwyr y llynedd yn cynnwys grwpiau cerdd, gweithgareddau ieuenctid, prosiectau diogelwch y cyhoedd a llawer mwy gyda'r nod o leihau trosedd a hyrwyddo gweithredu cymunedol cadarnhaol.

Daw'r cyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac o asedau a atafaelwyd oddi wrth droseddwyr.

Gwnewch gais yma:

https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/ycyc-25?fbclid=IwZXh0bgNhZW0CMTEAAR1w6SOWKn8txLBdM6tC3oV-maMOPx7ayNJLgzhCGvnGnWv3vS4aAVAm7u8_aem_xQHgS2vTjnvQy_tbiyzBlg